# CABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 15 Medi 2026 |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Craig ab Iago |
| **Swyddog Cyswllt:** | Dylan Owen, Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol |
| **Teitl yr Eitem:** | Cais am gyllid i ddatblygu gwaith hinsawdd a natur Cyngor Gwynedd 2026/27 – 2029/30. |

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

### 1. Y penderfyniad a geisir

i. Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r cais am gyllid i ariannu costau cynnal swyddi a chostau gweithredu prosiectau o fewn y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur:

ii. Costau cyflogaeth tan Mawrth 2030 - £416,383

iii. Costau prosiectau - £7,275,160

### 2. Y Rheswm Dros yr Angen am Benderfyniad

i. Mae'r gyllideb a neilltuwyd gan Gabinet Cyngor Gwynedd yn 2023 at ddefnydd gweithredu'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur wedi ei wario neu wedi ei neilltuo. Bydd angen i'r Cabinet gymeradwyo cais am gyllid pellach er mwyn parhau â'r gwaith o 2026/27 ymlaen.

ii. Mae cytundebau presennol 3 swydd sy'n gweithredu'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur yn dod i ben yn 2027, felly mae angen penderfyniad amserol er mwyn sicrhau parhad y gwaith.

### 3. Cefndir

i. Mae 'Gwynedd Werdd' yn un o wyth Blaenoriaeth Gwella'r Cyngor, ac mae'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur 2022/23–2029/30 yn un o'r 5 prosiect o fewn y flaenoriaeth honno. Mae'r Cynllun yn gosod yr uchelgais i Gyngor Gwynedd fod yn garbon sero net ac yn ecolegol gadarnhaol. O fewn y cyd-destun hwn, mae'r cais yn ceisio sicrhau adnoddau dros gyfnod o bedair blynedd, hyd at 2029/30, sef blwyddyn olaf y cynllun presennol a'r dyddiad ar gyfer cyflawni cam cyntaf yr uchelgais gorfforaethol.

ii. Cafodd Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur newydd Cyngor Gwynedd ei dderbyn gan Gabinet y Cyngor ar 7 Gorffennaf eleni, a hynny yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus a mewnbwn gan Bwyllgor

Craffu Cymunedau'r Cyngor. Roedd y fersiwn hwn o'r cynllun yn esblygu ar y cynllun gwreiddiol oedd yn weithredol ers mis Ebrill 2022.

iii. Mae'r angen i fuddsoddi yn cael ei ategu gan ofynion deddfwriaethol a pholisi ehangach, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Deddf Ynni 2023 a'r ymrwymiadau rhyngwladol sy'n deillio o Gytundeb Paris 2015. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i atal a gwrthdroi colli natur erbyn 2030, gan gynnwys y targed '30 wrth 30', sy'n golygu diogelu a rheoli 30% o dir a môr yn effeithiol ar gyfer natur erbyn y dyddiad hwnnw.

iv. Mae cyfanswm o 39 o risgiau ar Gofrestr Risg Corfforaethol y Cyngor sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd a natur. Mae 15 o'r rhain yn ymwneud yn uniongyrchol â gweithredu'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur megis bygythiadau o lifogydd, diffyg trafnidiaeth, casglu gwastraff, cynnydd costau ynni ayb. Mae 24 ychwanegol yn risgiau cysylltiedig megis heriau tlodi tanwydd i drigolion, colli mynediad at wasanaethau gofal ac addysg, costau cynyddol darparu gwasanaethau ayb.

v. Mae'r cais hwn am gyllid wedi ei strwythuro o amgylch dau faes:

- **costau cyflogaeth** i gynnal capasiti craidd a denu cyllid allanol
- **parhad buddsoddi** mewn prosiectau dadgarboneiddio presennol ar draws adeiladau, ynni a seilwaith gwefru.

vi. Mae'r wybodaeth ariannol wedi ei chyflwyno fesul blwyddyn dros gyfnod o 4 blynedd rhwng 2026/27 a 2029/30. Byddai sicrwydd cyllid aml-flwyddyn yn galluogi gwell cynllunio, gweithredu mwy strategol a mwy o effaith o ran lleihau allyriadau carbon a chryfhau gwydnwch natur.

vii. Yn ychwanegol at y ddau bennawd ariannu yn 3.v uchod, bydd gwaith cychwynnol yn digwydd yn 2026/27 i ymchwilio i bosibiliadau i ddatblygu **cynlluniau arloesol newydd**, yn enwedig ar y cyd â chymunedau, er mwyn darparu gwasanaethau fydd yn lleihau allyriadau carbon ac yn creu incwm neu'n lleihau costau. Gan nad yw'r costau'n hysbys eto bydd angen cyflwyno unrhyw geisiadau cyllid perthnasol wrth i'r achosion busnes ddod yn aeddfed.

## 4. Cyflogaeth

i. Gofynnir am gyllid i barhau â thair swydd allweddol hyd at 31/3/2030: Rheolwr Rhaglen Hinsawdd a Natur (rhan-amser), Swyddog Prosiect Hinsawdd a Natur, a Swyddog Bioamrywiaeth. Mae cytundebau presennol y swyddi hyn yn dod i ben yn 2027.

ii. **Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd (Rhan Amser)** –

*iii. Cyflawniadau hyd yma:*

- Mae'r swydd wedi darparu gwerth clir o safbwynt gallu'r Cyngor i **ddenu cyllid allanol a symud prosiectau blaenoriaeth yn eu blaenau**. Ers Ionawr 2024, mae'r Rheolwr Rhaglen, ar y cyd â'r Hyfforddai Proffesiynol, wedi llwyddo i ddenu **£892,297 mewn grantiau**, gan alluogi buddsoddi mewn prosiectau allweddol megis pwyntiau gwefru, datblygiad fflyd EV, plannu coed trefol ac astudiaethau ecolegol.
- Yn strategol, mae'r rôl wedi sefydlu'r **strwythurau arwain a chydgordio** sydd eu hangen i gyflawni'r rhaglen newid hinsawdd, gan gynnwys:
  - darparu cyngor arbenigol i'r Bwrdd Ymateb Newid Hinsawdd;
  - datblygu a llywio cynnwys y Cynllun Hinsawdd a Natur;
  - sicrhau aliniad a chydgysylltiad trawsadrannol ar brosiectau;

    - cryfhau'r sail dystiolaeth ar gyfer buddsoddi (buddion carbon ac ariannol, gwerth am arian).
  - ganlyniad, mae'r swydd wedi bod yn greiddiol i symud y Cyngor o weithgarwch unigol i **raglen fwy systematig, wedi'i chydgordio ac ar sail dystiolaeth well**.

*iv. Blaenoriaethau'r cyfnod nesaf:*

- Y prif ffocws fydd symud o ddatblygu i **gyflenwi ar raddfa**, gyda'r Rheolwr Rhaglen yn ganolog i gyflawni hyn. Bydd y blaenoriaethau yn cynnwys:
  - Arwain gweithrediad y Cynllun Hinsawdd a Natur newydd, gan sicrhau ei fabwysiadu a'i weithredu ar draws y Cyngor a'i gyflwyno i'r Cabinet;
  - Cryfhau llywodraethu a monitro perfformiad y rhaglen drwy sicrhau bod adrannau'n atebol am gyflawni a chanlyniadau;
  - Datblygu a blaenoriaethu'r prosiectau, gan wella'r dystiolaeth o gostau, buddion carbon ac ariannol a chyfnodau ad-dalu i gefnogi penderfyniadau buddsoddi;
  - Parhau i ddenu adnoddau allanol a chyllid grant, a gwneud y gorau o gyfleoedd ariannu wrth iddynt godi;
  - Atgyfnerthu cydweithio mewnol ac allanol, gan sicrhau bod y Cyngor yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd rhanbarthol a phartneriaethol.
- Yn gryno, y flaenoriaeth yw **cyflymu cyflawni a sicrhau effaith fesuradwy o'r rhaglen**.

*v. Risg pe na bai'r swydd yn parhau*

- Byddai risg uniongyrchol i allu'r Cyngor i:
  - arwain a chydgordio'r rhaglen newid hinsawdd ar draws adrannau, gan arwain at **ddiffyg cysondeb a dyblygu**;
  - **gyflawni'r Cynllun Hinsawdd a Natur** ar raddfa ac o fewn amserlen, gan danseilio un o flaenoriaethau gwella craidd y Cyngor;
  - **ddenu cyllid allanol pellach**, gan leihau'r gallu i fuddsoddi mewn prosiectau sy'n cynhyrchu buddion carbon ac ariannol;
  - **ddarparu trosolwg strategol a llywodraethu cadarn**, gan greu risg i ansawdd penderfyniadau buddsoddi a gwerth am arian;
- Yn ymarferol, byddai'r effaith yn:
  - lleihad mewn capasiti arweinyddiaeth rhaglen;
  - arafu neu oedi mewn prosiectau;
  - a risg uwch o **beidio â chyflawni targedau hinsawdd a blaenoriaethau** corfforaethol y Cyngor.

**vi. Swyddog Newid Hinsawdd**

*vii. Cyflawniadau hyd yma:*

- Mae'r swydd (neu'r rôl gyfatebol Hyfforddai Proffesiynol hyd yma) wedi darparu **capasiti gweithredol hanfodol** i alluogi cyflawni'r rhaglen newid hinsawdd yn ymarferol ynghyd â chefnogaeth i'r Rheolwr Rhaglen.
- Yn benodol, mae'r swydd wedi:
  - cefnogi'r gwaith o **ddenu grantiau (£892k+)** a datblygu prosiectau blaenoriaeth;

    - cyfrannu at **ddatblygu achosion busnes, adroddiadau a phapurau penderfynu**, gan gryfhau sail dystiolaeth y rhaglen;
    - cefnogi **cydlynu prosiectau** a ffrydiau gwaith ar draws adrannau;
    - galluogi **casglu, dadansoddi a chyflwyno data**, gan wella ansawdd gwybodaeth ar gyfer penderfyniadau;
    - hwyluso **cydweithio mewnol ac allanol**, gan sicrhau ymateb mwy cydgysylltiedig i ofynion y rhaglen.

viii. *Blaenoriaethau'r cyfnod nesaf (6–12 mis):*

- Y flaenoriaeth yw cryfhau capasiti cyflawni'r rhaglen wrth i'r Cyngor symud i gyflenwi ar raddfa. Bydd y rôl yn allweddol i:
    - **Gweithredu a chyflanwi prosiectau'r Cynllun Hinsawdd a Natur**, gan sicrhau cynnydd mesuradwy;
    - **Cydlynu a rheoli ffrydiau gwaith** a phrosiectau lluosog, gan sicrhau trefn, blaenoriaethu a chyflawni amserol;
    - **Datblygu achosion busnes a cheisiadau grant**, a manteisio ar gyfleoedd ariannu wrth iddynt godi;
    - **Dadansoddi data a pherfformiad prosiectau**, gan ddarparu mewnbwn cadarn i benderfyniadau buddsoddi;
    - **Cefnogi trefniadau llywodraethu a chyfathrebu**, gan sicrhau bod cynnydd a risgiau'n cael eu hadrodd yn effeithiol;
    - **Atgyfnerthu cydweithio trawsadrannol**, gan sicrhau gweithredu cyson ar draws y sefydliad.

ix. *Risg pe na bai'r swydd yn parhau:*

- Mae'r rôl yn hanfodol i **gapasiti cyflawni'r rhaglen**. Heb y swydd:
    - byddai diffyg capasiti i **gydlynu a rheoli prosiectau lluosog**, gan arwain at oedi a diffyg blaenoriaethu;
    - byddai llai o allu i **ddatblygu ceisiadau grant a manteisio ar gyfleoedd ariannu**, gan arwain at golli incwm allanol;
    - byddai **ansawdd** data, adrodd a thystiolaeth ar gyfer penderfyniadau yn **dirywio**;
    - byddai risg uwch o **beidio â chyflawni prosiectau'r Cynllun Hinsawdd a Natur** ar amser ac o fewn adnoddau;
    - byddai'r pwysau'n cynyddu'n sylweddol ar y Rheolwr Rhaglen, sydd yn swydd rhan amser (3 diwrnod yr wythnos).

**x. Swyddog Bioamrywiaeth**

xi. *Cyflawniadau hyd yma:*

- Mae'r swydd wedi darparu **arbenigedd technegol a chapasiti** tystiolaethol hanfodol i gryfhau gallu'r Cyngor i gynllunio, mesur ac adrodd ar waith bioamrywiaeth a natur.
- Ers penodi i'r swydd ym mis Tachwedd 2025, mae'r rôl wedi:
    - datblygu **systemau mapio a rheoli data** ar gyfer prosiectau a thiroedd y Cyngor;
    - defnyddio GIS i ganoli gwybodaeth a **nodi cyfleoedd** ar raddfa tirlun;
    - gwella'r **gallu i gasglu data** ac adrodd drwy ddefnyddio technoleg drôn;

- cefnogi gwaith i archwilio **dulliau o fesur carbon ar dir** y Cyngor a chryfhau'r sail dystiolaeth ar gyfer targedau amgylcheddol 2030.

- O ganlyniad, mae'r swydd wedi helpu'r Cyngor i symud tuag at ddull mwy systematig, data-seiliedig a strategol o reoli gwaith bioamrywiaeth a natur.

xii. *Blaenoriaethau'r cyfnod nesaf:*

- Y flaenoriaeth yw **cryfhau gallu'r Cyngor i reoli, monitro a blaenoriaethu gwaith bioamrywiaeth** ar sail data a thystiolaeth gadarn.
- Bydd y rôl yn allweddol i:
  - **Fapio a chasglu data** ar gyflwr tiroedd a choedlannau'r Cyngor;
  - **Datblygu bidiau i ddenu cyllid allanol** ar gyfer asesiadau amgylcheddol a rheoli tiroedd;
  - **Asesu cyflwr gwarchodfeydd** a chynhyrchu adroddiadau i Lywodraeth Cymru ar gynnydd yn erbyn targedau 2030;
  - Adnabod **cyfleoedd ar gyfer plannu coed** a gweithredu'r prosiectau yn ymwneud â choed yn y Cynllun Hinsawdd a Natur, gan gefnogi dull mwy strategol a chydgysylltiedig ym maes natur.
  - 

xiii. *Risg pe na bai'r swydd yn parhau:*

- Mae'r rôl yn hanfodol i gynnal **capasiti technegol ac arbenigedd** y Cyngor ym maes bioamrywiaeth, natur a **chydymffurfiaeth amgylcheddol**. Heb y swydd:
  - byddai llai o allu i gasglu, dadansoddi a rheoli data amgylcheddol, gan **wanhau'r sail dystiolaeth ar gyfer penderfyniadau**;
  - byddai **llai o gapasiti i ddatblygu cynlluniau** rheoli a blaenoriaethau buddsoddi ar gyfer tir a chynefinoedd y Cyngor;
  - byddai risg uwch o **beidio â bodloni gofynion Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016** a deddfwriaeth bioamrywiaeth newydd;
  - byddai gallu'r Cyngor i ddangos cynnydd mesuradwy tuag at dargedau amgylcheddol 2030 yn cael ei leihau'n sylweddol.
  - 

xiv. Gwneir cais am gyfanswm costau cyflogaeth o **£416,383** i gynnal 3 swydd rhwng 2026/27 a 2029/30, gyda'r wybodaeth wedi ei dorri i lawr fel â ganlyn:

| | **2026/27 £** | **2027/28 £** | **2028/29 £** | **2029/30 £** |
|---|---|---|---|---|
| Rheolwr Rhaglen Hinsawdd a Natur 3 blyn 27/28 - 29/30 (ar sail 0.6 FTE) | | 42,712 | 43,993 | 45,313 |
| Swyddog Prosiect Hinsawdd a Natur 4 blyn 26/27 - 29/30 | 5,611 | 35,288 | 60,788 | 62,611 |
| Swyddog Bioamrywiaeth 2.5 blyn 27/28 - 29/30 | | 23,729 | 47,457 | 48,881 |
| **Cyfanswm £** | **5,611** | **101,729** | **152,238** | **156,805** |

## 5. Gweithredu prosiectau

i. Gofynnir am gefnogaeth ariannol i ystod o brosiectau dadgarboneiddio o fewn y Cynllun Hinsawdd a Natur, yn bennaf ym meysydd adeiladau, ynni a seilwaith gwefru. Mae gwybodaeth wedi'i gynnwys

fesul prosiect ynghylch y costau, buddion carbon ac ariannol, cyfnodau ad-dalu a risgiau, er mwyn eich galluogi i wneud penderfyniad ar werth am arian a blaenoriaethu buddsoddiad.

## 6. Prosiect: Newid goleuadau mewn swyddfeydd a safleoedd y Cyngor i fod yn LED - pob safle.

i. **Disgrifiad / Achos Busnes**: Mae angen £4m yn ychwanegol i'r gyllideb ar gyfer y gwaith. Disgwyl arbediad trydan/ariannol 30%.

| Cost 26/27 | Cost 27/28 -29/30 | Arbediad Carbon (4 blyn) | Arbediad Ariannol |
|---|---|---|---|
| £1,000,000 | £3,000,000 (£1m y flwyddyn) | 462/ tCO2e/fl | £443,503 y flwyddyn |

ii. **Sylwadau / risg**

Byddai lleihau defnydd trydan yn rhyddhau‘r capasiti sy’n weddill ar y safle i'w ddefnyddio ar gyfer trydaneiddio gwres. Byddai hynny’n arwain at arbedion ariannol refeniw blynyddol ac yn arbed costau trwy osgoi yr angen i uwchraddio’r grid er mwyn cynyddu capasiti trydan. E.e. Arbedion o £14k yn Ysgol Llanbedrog, £30k yn Hafod Lon o ganlyniad i beidio gwario ar uwchraddio’r grid.

Mae arbedion fel hyn yn ychwanegol i’r arbedion o £444k a nodir yn y blwch uchod.

iii. **Ffynhonnell ariannu a argymhellir:**

**Argymhelliad Adran Cyllid yw benthyca trwy’r gyfundrefn Salix.** Mae cyfraddau benthyca Salix yn ffafriol ar hyn o bryd ac argymhelliad Cyllid yw y byddai hynny’n well opsiwn i’r Cyngor na benthyca o ffynhonnell megis y PWLB nag i ddefnyddio adnoddau mewnol. Tra fod y cyfraddau yn newid yn ddyddiol, ar bwynt penodol yma mis Awst roedd y gyfradd benthyca gan y PWLB am gyfnod o 6 mlynedd yn 5.43% i’w gymharu â 2.45% o fenthyca trwy Salix.

Nodir fod angen gwneud cais am gyllid gan Salix, felly nid oes gwarant o gyllid. Petai’r cais yn aflwyddiannus byddwn yn ystyried beth yw’r opsiwn orau ar y pryd, gan fod y cyfraddau benthyca / buddsoddi yn amrywio yn ddyddiol.

7. **Prosiect: Newid dull gwresogi safleoedd o nwy i drydan - Dadgarboneiddio gwres (retrofit)**

i. **Disgrifiad / Achos Busnes**: Gorffen talu i uwchraddio 2 safle - cartref Hafod Mawddach a Byw'n Iach Penllyn - er mwyn cwrdd â thelerau grant sydd eisoes wedi ei dderbyn (Hafod Mawddach) a chyllid cyfatebol 10% i gais grant i orffen Penllyn.

ii.

| **Cost 26/27** | **Cost**<br><br>**27/28 - 29/30** | **Arbediad Carbon (4 blyn)** | **Arbediad**<br>**Ariannol** |
|---|---|---|---|
| £411,000 | | Penllyn: 107 tCO2e/fl<br><br>Hafod Mawddach: 48 tCO2e/fl | Dim ar hyn o bryd, ond yn gwarchod y Cyngor rhag risgiau cynnydd prisiau tanwydd i'r dyfodol |

iii. **Sylwadau / risg:**

Mae hwn yn gais i gyllido gorffen rhaglen waith sydd eisoes ar y gweill . Y risg o beidio cyllido yw peidio cadw at amodau grant, a bod y gwaith sydd eisoes wedi ei wneud yn mynd yn wastraff.

**iv. Ffynhonnell ariannu a argymhellir:**

**Argymhelliad Adran Cyllid yw ychwanegu'r prosiect yma i'r Cynllun Rheoli Asedau.** Barn Cyllid yw dylid fod yn ddarbodus a rhagdybio fod angen chwilio am arian newydd i gyflawni'r prosiect yma – er fod yna arian yn parhau mewn rhai cronfeydd perthnasol, ymddengys fod yr arian hwn wedi cael ei ymrwymo'n helaeth i gynlluniau eraill. Nid yw'r cynllun yma wedi cael ei gynnwys yn y gyllideb cyfalaf ar hyn o bryd, a gan fod y grant mewn perygl os nad yw'r Cyngor yn symud ymlaen, argymhellir defnyddio'r hyblygrwydd gyfyngedig sydd ar gael yn y gyllideb cyfalaf, tra'n cydnabod fod ystyriaeth o'r Cynllun Rheoli Asedau yn fater ehangach.

**8. Prosiect: Paneli solar newydd**

i. **Disgrifiad / Achos Busnes:** Gosod paneli solar trydan (PV) ar 23 safle newydd ac ychwanegu at gapasiti rhai safleoedd presennol i bweru'r adeilad a gwefru EV. Os yn cael ei gefnogi'n llawn bydd yn darparu tua hanner o anghenion trydan y Cyngor gan arwain at arbedion £627k y flwyddyn.

| Cost 26/27 | Cost<br>27/28 -29/30 | Arbediad Carbon (4 blyn) | Arbediad Ariannol | Cyfnod Ad-dalu |
|---|---|---|---|---|
| | £2,300,000<br>(2027/28) | 589 tCO2e/fl (os yn cynnwys yr hyn sydd eisoes wedi ei gyllido) | £627k y flwyddyn | 4 blynedd |

**ii. Sylwadau / risg:**
Risg o beidio gwneud yw talu costau ynni uwch. Mae risg ar wahân bod posib angen talu costau uwchraddio'r grid os am osod gwefru EV**.**

**iii. Ffynhonnell ariannu a argymhellir:**

**Argymhelliad Adran Cyllid yw i edrych ymhellach i'r hyn a gynigir gan Salix fel ffynhonnell ariannu.** Mewn achosion fel hyn yn y gorffennol, mae'r Cyngor wedi sefydlu "cronfa negyddol" oedd yn cael ei ad-dalu fel oedd arbedion yn cael eu gwireddu. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cael ei ystyried yn ddull dderbyniol o weithredu bellach, ac mae Archwilio Cymru wedi cadarnhau hynny. Defnyddir Salix fel prif ffynhonnell ariannu paneli solar mewn awdurdodau lleol a barn Cyllid yw dylai Cyngor Gwynedd ystyried gwneud yr un modd. Fel gyda'r prosiect newid goleuadau a ddisgrifir uchod, bydd rhaid gwneud cais am yr arian a nid oes gwarant o lwyddiant, ond mae'r telerau a gynigir ganddynt yn fwy ffafriol na'r opsiynau eraill sydd ar gael i ni am wariant o'r maint a'r natur yma.

**9. Gosod systemau rheoli a monitro defnydd o egni – trydan / Gosod systemau rheoli a monitro defnydd o egni – LPG ac olew**

i. **Disgrifiad / Achos Busnes:** Gosod systemau rheoli gwresogi (BMS) ar 3 safle dros 3 mlynedd sydd hebddo ar hyn o bryd. Monitro defnydd ynni er mwyn adnabod gwastraff gan arwain at arbedion cyllid a charbon.
AMR = system monitro ynni sy'n cyfateb i BMS ond ar gyfer safleoedd efo gwresogi LPG ac olew. Monitro defnydd ynni er mwyn adnabod gwastraff gan arwain at arbedion cyllid a charbon.

| **Cost 26/27** | **Cost 27/28 -29/30** | **Arbediad Carbon (4 blyn)** | **Arbediad Ariannol** | **Cyfnod Ad-dalu** |
|---|---|---|---|---|
| BMS<br>£20,000 (2026/27) | £40,000<br>(2027/28) | 49 tCO2e/fl | £15k y flwyddyn | 4 mlynedd |
| AMR<br>£46,750 | £46,750 | - | £15k | |

ii. **Sylwadau / risg:**

Budd sylweddol o fuddsoddiad bychan. Heb osod yr AMR yn ei le, nid oes modd gwybod os oes gwastraff. Gall fod yn uchel neu yn isel. O ganlyniad nid oes modd cyfrifo ROI. Anodd datgan arbedion yn bendant o'r herwydd.

**iii. Ffynhonnell ariannu a argymhellir:**

**Argymhelliad Adran Cyllid yw i ddefnyddio'r cronfeydd sydd eisoes yn bodoli, neu trin y ceisiadau hyn fel rhai buddsoddi i arbed.** Nodir sylwadau'r awdur nad oes modd bod yn bendant am y dychweliadau ar fuddsoddiad, ac ymhellach nodir nad yw unrhyw system fonitro am ddod ag arbedion ohono'i hun heb fod yna weithredu pendant ar y canlyniadau. Gan nad oes modd derbyn sicrwydd y daw arbedion ni ellir trin hwn fel cais buddsoddi i arbed ar hyn o bryd felly ni welir fod opsiwn ond adnabod adnoddau ychwanegol o fewn 2026/27 a 2027/28 ond gydag ymrwymiad fod unrhyw arbedion sydd yn deillio o'r cynllun yn cael eu defnyddio i ad-dalu'r ymrwymiad, trwy ostwng cyllidebau.

**10. Prosiect: Newid dull gwresogi safleoedd o nwy i drydan - Dadgarboneiddio gwres (retrofit)**

**i. Disgrifiad / Achos Busnes:** Cyfalaf o 10% arian cyfatebol ar gyfer y safleoedd sy'n ran o gymal 4 o Grant Gwres Carbon Isel Ll.C – Plas Silyn, Plas Ffrancon ac Ysgol Llanllyfni.

| **Cost 26/27** | **Cost 27/28 -29/30** | **Arbediad Carbon (4 blyn)** | **Arbediad Ariannol** |
|---|---|---|---|
| £105,000 | | Plas Silyn: 13 tCO2e/fl<br>Plas Ffrancon: 13 tCO2e/fl<br>Ysgol Llanllyfni: 2 tCO2e/fl | Gwarchod y Cyngor rhag cynnydd mewn costau ynni i'r dyfodol |

**i. Sylwadau / risg:**

Byddai peidio cefnogi'r cais yn arwain at golli grant o £900k gan Lywodraeth Cymru, a pheidio gallu cyflawni'r prosiect.

**ii. Ffynhonnell ariannu a argymhellir:**

**Argymhelliad Adran Cyllid yw i ddefnyddio'r Gronfa Trawsffurfio fel dewis cyntaf, ac as nad yw hyn yn dderbyniol, fod y cynllun yn cael ei ychwanegu i'r Cynllun Rheoli Asedau.** Byddai'r ymrwymiad yn rhyddhau £900,000 o grant llywodraeth felly ystyrir fod yn ddefnydd rhesymol o'r Gronfa Trawsffurfio.

**11. Prosiect: Costau mewnol gosod pwyntiau gwefru 6 safle / Prynu pwyntiau gwefru X 3 ar 6 safle**

i. **Disgrifiad / Achos Busnes:** 6 safle × £4k, gydag uchafswm o £200k ar gostau gosod tîm goleuo / Offer, Swyddfa gefn, *maintenance* a *warranty*. 18 × £4,536, ar sail dim grantiau.

| Cost 26/27 | Cost<br>27/28 -29/30 | Arbediad Carbon (4 blyn) |
|---|---|---|
| £224,000 | | Dim arbedion uniongyrchol, ond gosod pwyntiau yn angenrheidiol ar gyfer fflyd werdd |
| £81,660 | | Dim arbedion uniongyrchol, ond gosod pwyntiau yn angenrheidiol ar gyfer fflyd werdd |

**i. Sylwadau / risg:**

Mae gosod pwyntiau gwefru at ddefnydd fflyd y Cyngor yn angenrheidiol er mwyn gallu darparu ar gyfer y nifer gynyddol o gerbydau trydan.

**ii. Ffynhonnell ariannu a argymhellir:**

**Argymhelliad Adran Cyllid yw i ddefnyddio cronfa sydd eisoes yn bodoli.** Derbyniodd y Cyngor grant perthnasol mewn blwyddyn flaenorol i'r diben hwn, ac mae arian yn weddill sydd ar gael i'w ddefnyddio.

**12. Cynlluniau Arloesol**

i. Hyd yma, mae'r Cyngor wedi canolbwyntio ar weithredu cynlluniau traddodiadol (e.e. adeiladau, ynni a fflyd), sydd wedi darparu lleihad carbon ac arbedion ariannol. Er eu bod wedi bod yn llwyddiannus maent hefyd wedi cyfyngu ar y gallu i archwilio dulliau newydd o weithio a chydweithio â phartneriaid. Mae'r Cynllun Hinsawdd a Natur newydd yn nodi bwriad i gynyddu'r lefel o gydweithio gyda chymunedau, gan greu'r angen am adnodd mwy hyblyg i alluogi hyn.

ii. Nid ydym hyd yma wedi ymchwilio i'r posibiliadau i'r Cyngor geisio darparu gwasanaethau presennol mewn ffyrdd gwahanol neu arloesol. Byddwn yn cychwyn ar y gwaith paratoi ac ymchwil yn 2026/27 i asesu os y gall y Cyngor greu incwm neu leihau costau yn sylweddol, efallai drwy sefydlu gwasanaethau hyd-braich.

iii. Gall prosiectau arloesol gael eu gweithredu gan y Cyngor ar ei ben ei hun neu mewn partneriaeth â'r sector cymunedol, cyhoeddus neu breifat. Byddai'r buddion (carbon ac ariannol) yn dibynnu ar natur y prosiect, ond byddai unrhyw fuddsoddiad yn cael ei asesu yn erbyn meini prawf clir, sef a yw'n:

a. lleihau allyriadau carbon y Cyngor;
b. cynyddu incwm;

c. neu’n lleihau galw am wasanaethau gan leihau costau.

**13. Mesur llwyddiant**

i. Byddwn yn parhau i gasglu data am allyriadau carbon blynyddol Cyngor Gwynedd a’u cyflwyno i Lywodraeth Cymru yn unol a’r drefn sydd yn ei lle ers 2021.

ii. Mae’r canlyniadau hynny yn cael eu cyhoeddi mewn adroddiadau blynyddol, sydd i’w gweld yma.

**14. Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a’r Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol**

i. Lluniwyd Asesiad Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a'r Dyletswydd Economaidd Gymdeithasol ar y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur pan y gafodd ei fabwysiadu yng nghyfarfod y Cabinet ar 8 Mawrth 2022. Mae diweddariad i’r asesiad i’w weld yn Atodiad 1.

**15. Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015**

i. A ydych wedi cynnwys trigolion / defnyddwyr gwasanaeth? Os ddim, pryd a sut ydych yn bwriadu ymgynghori â nhw?

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur yn ystod haf 2025. Mae’r canlyniadau i'w gweld yma

ii. A ydych wedi ystyried cydweithio?

Mae penodau 12 ac 13 o’r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur yn adrodd ar waith sydd wedi ei gynnal yn rhannol gan Bartneriaeth Natur Gwynedd, sef consortiwm o fudiadau lleol sy’n cael eu harwain gan y Cyngor. Mae nifer o brosiectau eraill sydd yn y CAHN yn cael eu cynnal mewn partneriaeth ag eraill, megis prosiectau teithio llesol ar y cyd â phartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Mae’r adolygiad newydd o’r CAHN yn rhestru prosiectau newydd ble y bydd yn gwbl hanfodol i gydweithio â mudiadau cymunedol a trigolion er mwyn eu cyflawni – ee. ‘cydweithio gyda mudiadau cymunedol er mwyn cynhyrchu a dosbarthu ynni adnewyddadwy’.

iii. Beth sydd wedi ei wneud neu bydd yn cael ei wneud i atal problemau rhag codi neu waethygu yn y dyfodol?

Un o egwyddorion sylfaenol y CAHN yw ceisio atal cynnydd pellach yn nhymheredd cyfartalog y blaned ac i gyfyngu cynhesu byd eang i “ymhell islaw 2 oC” yn unol â Chytundeb Paris y Cenhedloedd Unedig. Mae pob un o brosiectau’r cynllun yn ceisio sefydlogi neu hyd yn oed wrthdroi y siawns bod y sefyllfa bresennol yn arwain at ragor o broblemau yn y dyfodol.

iv. Sut ydych wedi ystyried yr hirdymor a beth fydd anghenion pobl mewn blynyddoedd i ddod?

Fel y nodwyd uchod, sail y CAHN yw ceisio atal problemau cynhesu byd eang rhag gwaethygu i’r dyfodol, ac er bod targed i’r Cyngor ei hun fod yn garbon sero net erbyn 2030 mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed i Gymru gyfan fod yn sero net erbyn 2050. Mae’r CAHN felly hefyd yn cymryd i ystyriaeth y bydd newid arferion trigolion a busnesau Gwynedd yn waith hirdymor y tu hwnt i 2030.

v. Er mwyn sicrhau integreiddio, a ydych wedi ystyried yr effaith bosib ar gyrff cyhoeddus eraill?

Mae nifer fawr o brosiectau'r CAHN yn cael eu cynllunio neu eu gweithredu ar y cyd â chyrff cyhoeddus eraill neu gyda'r sector wirfoddol a chymunedau. Mae yna gydweithio parhaus gydag awdurdodau lleol eraill ar draws gogledd Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru, a Trafnidiaeth i Gymru sydd wedi arwain at gynllunio a chomisiynu gwaith ar y cyd.

Mae nifer o gyrff cyhoeddus lleol gan gynnwys Cyngor Gwynedd yn aelodau o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac un o dri Amcan Llesiant yng Nghynllun Llesiant Gwynedd a Môn 2023-2028 yw 'Rydym am weithio gyda'n gilydd i gefnogi ein gwasanaethau a'n cymunedau i symud tuag at Sero Net Carbon'.

## 16. Camau nesaf ac amserlen

i. Parhau i ddatblygu prosiectau ac achosion busnes a chanfod cyllid i'w ariannu.

ii. Cyhoeddi Adroddiad Blynyddol Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur 2022/23 – 2029/30 yn nhymor yr Hydref bob blwyddyn er mwyn adolygu cynnydd ar y prosiectau.

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb

**Y Pennaeth Cyllid:**

Mae swyddogion o'r Adran Gyllid wedi cael cyfle i gynnig mewnbwn i'r adroddiad tra roedd yr awdur yn ei baratoi ac rwyf yn fodlon â'r wybodaeth sydd wedi ei gynnwys.

Bydd rhai o'r cynlluniau arfaethedig yn gyfle i wireddu arbedion ariannol yn ogystal â lleihau allyriadau carbon a lle bydd hyn yn digwydd bydd angen gostwng cyllidebau fel bo'n briodol, gan nodi bydd angen ad-dalu am unrhyw fenthyciadau.

---

**Atodiadau**

Atodiad 1 – Asesiad Effaith Cydraddoldeb